

Maenorbŷr/ Bae Swanlake



PELLTER/HYD: 2.5 milltir (4.1 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Maenorbŷr 349,
Gorsaf drenau 1 milltir i'r gogledd (SS069994)

CYMERIAD: Arfordir garw, graddiannau, caeau a da byw

CHWILIWCH AM: Traethau • golygfeydd gwych o'r arfordir

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

-  Llwybr Cylch
-  Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
-  Llwybrau Cyhoeddus
-  Maes Parcio
-  Toiledau Cyhoeddus
-  Safle Bws

Maenorbŷr/Bae Swanlake

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 2.5 milltir (4.1 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Maenorbŷr 349, Gorsaf drenau 1 milltir i'r gogledd (SS069994).

Cyfeirnod map: SS056977

Fwy na thebyg fod pob un yn teimlo rhywfaint o hiraeth a rhamant am eu plentyndod, ond pan ddisgrifiodd yr awdur o'r 12fed ganrif, Gerallt Gymro, Maenorbŷr fel y "man mwyaf dymunol yng Nghymru" efallai nad oedd yn bell iawn ohoni. Roedd Gerallt yn fab i dywysoges Gymraeg ac roedd ei dad yn un o'r Normaniaid. Roedd ei dad a'i deulu, y de Barris, yn byw yng Nghastell Maenorbŷr am ganrifoedd.

Mae'r faenor, gyda'i chastell, pentref ac eglwys brydferth, yn enghraifft berffaith o'r byd Eingl-Normanaidd a greodd goresgynwyr fel tad-cu Gerallt, Odo de Barri, yn ne Sir Benfro.

Mae'r castell wedi goroesi peryglon y canrifoedd yn well na llawer yng Nghymru. Pan yr oedd John Leland yn cynnal arolwg o'r deyrnas i Harri'r VIII yn y 1540au, fe gafodd Maenorbŷr gryn effaith arno, ac roedd yn "esiampol berffaith o hen gartref barwn Normanaidd". Mae'n dal i fod yn un o'r cestyll mwyaf cyflawn yn Sir Benfro.

Mae'r llwybr yn rhedeg yn agos at y castell ac at draeth Maenorbŷr, sy'n berffaith os am chwilota yn y pyllau glan môr.

Darganfuwyd olion anheddiad dynol yn yr ardal o amgylch Maenorbŷr. Roedd pobl Oes y Cerrig yn byw mor

syml mai ychydig iawn o olion o'u presenoldeb sydd ar ôl, ond mae archeolegwyr yn dod o hyd i olion y gwastraff a adawyd wrth iddyn nhw weithio'u fflintiau i gael ymyl miniog. Un o'r lleoliadau yn Sir Benfro ble daethpwyd o hyd i ddarnau bach o'r fflintiau yw Bae Swanlake.

Wrth anelu am y bae, edrychwch yn ôl i'r pentir gyferbyn, Trwyn yr Offeiriad (Priest's Nose). Dyma gliw arall i orffennol hynafol yr ardal, siambr gladdu Neolithig drawiadol Coetan y Brenin.

Ar un adeg, roedd cerrig anferth y siambr wedi eu claddu o dan bentwr o bridd a chreigiau. Heddiw, maen nhw'n agored ac yn nodwedd drawiadol iawn ar y tir.

Mae Tim Jones, Parcmon Sector y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Rwy'n arbennig o hoff o'r arfordir yma. Hyd yn oed ar ddiwrnod pan fydd y traeth ym Maenorbŷr yn brysur, fe allwch chi gerdded draw i Fae Swanlake ac efallai mai dim ond y chi fydd ar y traeth."

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

